

Minutes of **Planning and Amenities Committee** held at Penrhyn Hall, on **Monday 17 February 2020 at 6.30pm.**

PRESENT :- His Worship the Mayor Councillor John Wyn Williams
The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum
Councillors Gwynant Roberts Chairman
Les Day Ifan James Enid Parry
Dylan Fearnley John Wynn Jones George Turner
Derek Hainge Keiran Jones Mair Rowlands
Medwyn Hughes John Martin Huw Wyn Jones

Officer: - Martin Hanks, Acting Town Clerk

187/19 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors Gareth Roberts, Elin Walker Jones and Luke Tugwell.

188/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

Councillor D. Hainge and D. Fearnley declared an interest in Item 191/19 Planning Applications – C20/0113/11/LL and left the room prior to its consideration.

189/19 URGENT BUSINESS

The Town Clerk reported on the following matters of interest:-

- i) Soest Invite - The Council were advised that the Mayor and three representatives of Bangor City Council had been invited to attend the 25th anniversary of Soest's Twinning celebration. Any Councillor interested in this event was asked to notify the clerk prior to the 26th February. It was requested that this invitation be circulated electronically to all City Councillors
- ii) Pier Restaurant – It was reported that a request had been received from Promenade Leisure, the lessee of the Pier Restaurant, to assign the rights of the lease to a Mr Sicignano. The Council requested more information prior to giving consent.

190/19 ASHLEY JONES FIELD

The Council have received a request that a section of Ashley Fields be considered as a site for a community orchard. It was resolved to invite the proposer to attend a future Council meeting and expand on the proposal.

191/19 PLANNING APPLICATIONS

RESOLVED: that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

C20/0002/11/LL Engineering work so as to improve existing playing fields by using soil from the adjoining Ysgol y Garnedd site. 182 Ffordd Penrhos. **No objection.**

C20/0039/11/DT Application for the erection of a two storey rear extension. 35 Penrhos Road. **No objection.**

C20/0054/11/TC Application for a Lawful Development Certificate for the use of property as a House in Multiple Occupation. 7, Gordon Terrace Ffordd Garth. **Objection – It is the policy of Bangor City Council to object to all HMO's in a ward where the recommended limit has been exceeded.**

C20/0080/11/LL Application for the change of use of building from estate agent (Use Class A1) to 6 self contained residential units (Use Class C3) and cafe (Use Class A3) on part of ground floor, erection of additional floor and raise roof level of two existing rear extensions together with dormer window extension to the roof at the front and rear of the property. 300 High Street. **Objection – It was considered that this development constitutes an overdevelopment of this small site. The plan is also out of character with the buildings on the High Street.**

C20/0083/11/DT Application for the erection of a two storey front and rear extension (amended design to that refused under application C19/1135/11/LL). 33 Bryneithinog. **Objection – This application is on a corner of a busy school route and the additional pressures on infrastructure and communication of increasing the number of residents, it was felt, would be detrimental to the locality.**

C20/0093/11/CT Application for works to 4 trees (2 Common Lime, 1 Turkey Oak and 1 Ash) within a Conservation Area. Fron Gardens Ffordd Y Coleg. **No objection.**

C20/0094/11/CT Application to fell and works to trees (1 Scots Pine, 3 Sycamore, 1 Hornbeam, 3 Ash, 1 Norwegian Maple, 1 Lawson Cypress, 2 Beech and 1 Common Lime) within a Conservation Area. Old Normal College Site Ffordd y Coleg, **No objection.**

C20/0095/11/CT Application to fell and works to trees (Including Oak, Sycamore, Ash and Beech) within a Conservation Area. Prifysgol Bangor, College Park Heol Victoria. **No objection.**

C20/0113/11/LL Application to erect a single storey extension to Glancegin Primary School to create an additional classroom and extension to existing play area, extension to playground together with alterations to landscaping works between car park and proposed extension. Cyngor Gwynedd, Ysgol Glancegin Ffordd Y Castell, Maesgeirchen. **No objection.**

Councillors D. Hainge and D Fearnley declared an interest in this item and left the room prior to its consideration and subsequent vote.

C20/0115/11/DT Demolition work, extension and alterations. Tide Race Ffordd Glanaethwy. **No objection.**

192/19 HIGHWAY MATTERS

Proposed Parking Restrictions - Arfon Area No 14. 2020. Double Yellow lines Y Bae ac Ffordd Penrhos ger cyffordd Coed y Maes
The City Council does not see any reasons for the introduction of these parking restrictions.

193/19 LICENSING MATTERS

Premises Licence – Lower Floor, Ambassador Hall, rear of 236 High Street. - **Noted.**

194/19 INVOICES FOR PAYMENT

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £4450.76 had been approved.

The Meeting closed at 7.20 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, **Nos Lun 17 Chwefror 2020** am 6.30 y.h.

PRESENNOL :- Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wyn Williams
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum
Y Cynghorwyr G O Roberts Cadeirydd

Les Day	Ifan James	Enid Parry
Dylan Fearnley	John Wynn Jones	George Turner
Derek Hainge	Keiran Jones	Mair Rowlands
Medwyn Hughes	John Martin	Huw Wyn Jones

Swyddog :- Martin Hanks, Clerc y Dref Dros Dro

187/19 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Gareth Roberts, Elin Walker Jones a Luke Tugwell.

188/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Datganodd y Cynghorwyr D Hainge a D Fearnley ddiddordeb yn Eitem 191/19 Cais Cynllunio – C20/0113/11/LL a gadawsant yr ystafell cyn y drafodaeth.

189/19 MATERION BRYD

Adroddodd Clerc y Dref ar y materion o ddiddordeb canlynol:-

- i) Gwahoddiad Soest – Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Maer a thri chynrychiolydd o Gyngor Dinas Bangor wedi eu gwahodd i fynychu dathliad 25 mlynedd Gefeillio â Soest. Gofynnwyd i unrhyw Gyngorydd sydd â diddordeb yn yr achlysur hysbysu'r Clerc cyn 26 Chwefror. Gofynnwyd i'r gwahoddiad gael ei ddsbarthu'n electronig i bob un o Gynghorwyr y Ddinas.
- ii) Bwyty'r Pier – Adroddwyd fod cais wedi'i dderbyn gan Promeande Leisure, lesddeiliad Bwyty'r Pier, i aseinio hawliau'r les i unigolyn o'r enw Mr Scignano. Gofynnodd y Cyngor am fwy o wybodaeth cyn rhoi caniatâd.

190/19 CAEAU ASHLEY JONES

Mae'r Cyngor wedi derbyn cais i ran o Gaeau Ashley gael ei hystyried fel safle ar gyfer perllan gymunedol. Penderfynwyd gwahodd y cynigydd i gyfarfod o'r Cyngor er mwyn cael mwy o wybodaeth am y cynnig.

191/19 CEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C20/0002/11/LL Gwaith peirianyddol er mwyn gwella caeau chwarae presennol gan ddefnyddio pridd o safle cyfochrog Ysgol Y Garnedd. 182 Ffordd Penrhos. **Dim gwrthwynebiad.**

C20/0039/11/DT Cais ar gyfer codi estyniad deulawr yng nghefn yr eiddo. 35 Ffordd Penrhos. **Dim gwrthwynebiad.**

C20/0054/11/TC Cais ar gyfer Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer defnydd eiddo fel Tŷ Amlfeddiannaeth. 7, Gordon Terrace Ffordd Garth. **Gwrthwynebiad – Polisi Cyngor Dinas Bangor yw gwrthwynebu pob Tŷ Amlfeddiannaeth mewn ward lle mae'r terfyn a argymhellwyd eisoes wedi'i basio.**

C20/0080/11/LL Cais ar gyfer newid defnydd adeilad o werthwyr tai (Dosbarth Defnydd A1) i 6 uned breswyl hunan gynhaliol (Dosbarth Defnydd C3) a chaffi (Dosbarth Defnydd A3) a rhan o'r llawr gwaelod a chodi lloeriau ychwanegol a chodi lefelau to dau estyniad cefn presennol, ynghyd ag estyniadau ffenestri dormer i'r to a'r tu blaen a'r cefn. 300 Stryd Fawr. **Gwrthwynebiad - Ystyrir y byddai hwn yn or-ddatblygiad ar y safle bychan hwn. Nid yw'r cynllun yn gydnaws chwaith â'r adeiladau eraill ar y Stryd Fawr.**

C20/0083/11/DT Cais ar gyfer codi estyniad deulawr blaen a chefn ac ychwanegu ffenestri yn y to (dyluniad diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd o dan gais C19/1135/11LL). 33 Bryn Eithinog. **Gwrthwynebiad - Mae'r cais hwn ar gornel ffordd brysur i ysgol a themlir y byddai'r pwysau ychwanegol ar y seilwaith a'r teithio drwy gynyddu nifer y preswylwyr, yn andwyol i'r gymdogaeth.**

C20/0093/11/CT Cais ar gyfer gwneud gwaith i 4 goeden (2 Palalwyfen, 1 Derwen Dwrcaidd ac 1 Onnen) oddi fewn i Ardal Gadwraeth. Gerddi'r Fron Ffordd Y Coleg. **Dim gwrthwynebiad.**

C20/0094/11/CT Cais ar gyfer torri a gwneud gwaith i goed (1 Ffynidwydden, 3 Onnen, 1 Pisgwydden, 3 Sycamorwydden, 1 Oestrwydden, 1 Masarnen Norwyeg, 2 Ffawyddden ac 1 Palalwyfen) oddi fewn i Ardal Gadwraeth. Hen Safle Coleg y Normal Ffordd y Coleg. **Dim gwrthwynebiad.**

C20/0095/11/CT Cais ar gyfer torri a gwneud gwaith i goed (Gan gynnwys Derwen, Sycamorwydden, Onnen a Ffawyddden) oddi fewn i Ardal Gadwraeth. Prifysgol Bangor, College Park Heol Victoria. **Dim gwrthwynebiad.**

C20/0113/11/LL Cais ar gyfer codi estyniad unllawr i Ysgol Gynradd Glancegin ar gyfer creu dosbarth ychwanegol ac estyniad i'r ardal chwarae agored bresennol, estyniad i'r iard chwarae ynghyd â newidiadau i'r gwaith tirweddu rhwng y maes parcio a'r estyniad bwriedig. Cyngor Gwynedd, Ysgol Glancegin Ffordd Y Castell, Maesgeirchen. **Dim gwrthwynebiad.**

Datganodd y Cynghorwyr D Hainge a D Fearnely ddiddordeb yn yr eitem hon a gadawsant yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.

C20/0115/11/DT Gwaith dymchwel, estyniad a newidiadau. Tide Race Ffordd Glanaethwy. **Dim gwrthwynebiad.**

192/19 MATERION PRIFFYRDD

Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig - Ardal Arfon Rhif 14 2020 Llinellau Melyn Dwbl - Y Bae a Ffordd Penrhos ger cyffordd Coed y Maes. **Nid yw Cyngor y Ddinas yn gweld unrhyw reswm dros gyflwyno'r cyfyngiadau parcio hyn.**

193/19 MATERION TRWYDDEDU

Trwydded Eiddo – Llawr Is, Ambassador Hall, cefn 236 Stryd Fawr – **Nodwyd.**

194/19 ANFONEBAU I'W TALU

Nodwyd fod anfonebau fel ag y manylwyd arnynt ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £4450.76 wedi cael eu cymeradwyo.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.20 y.h.